**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 25 MAWRTH 2021 DYDD IAU, 25 MAWRTH 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors J. Holt (Deputy Chair)
P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
G. L. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
M. Holland
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem

T. Smith
B. Summers
B. Thomas
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Wilkshire
B. Willis
L. Winnett

| WITH: | |
|---|---|
| | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg |
| | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol |
| | Prif Swyddog Adnoddau |
| | Prif Swyddog Interim Masnachol |
| | Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorffoaethol |
| | Pennaeth Datblygu Sefydliadol |
| | Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg |
| | Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid |
| | Swyddog Democrataidd |
| | Swyddog Cefnogaeth Democrataidd |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G. Collier. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Adroddwyd y datganiadau dilynol o fuddiant: | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Eitem Rhif 31 – Strategaeth Buddsoddiad TGCh*<br>***Cynghorydd Wayne Hodgins***<br><br>**Eitem Rhif 35: Datganiad Polisi Tâl 2021/2022**<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gyfarwyddwr<br>- Richard Crook – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Bernadette Elias – Prif Swyddog Interim Masnachol<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Gina Taylor – Rheolwr Gwasanaeth Cyfrifeg<br>- Sean Scannell – Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid<br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd<br>- Michelle Hicks – Swyddog Cymorth Democrataidd<br><br>Byddai'r swyddogion a enwir uchod yn gadael y cyfarfod pan ystyrir yr eitem hon o fusnes. Fodd bynnag byddai'r swyddogion dilynol yn aros yn y cyfarfod i gadw nodiadau am y trafodion:<br><br>- ***Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd (clerc cofnodion)***<br>- ***Michelle Hicks – Swyddog Cymorth Democrataidd***<br><br>*Eitem Rhif 40 – Safle NMC, Brynmawr*<br>***Cynghorydd John C. Morgan*** | |
| **No. 4** | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>Mynegwyd llongyfarchiadau i:<br><br>Tyler Allen, bachgen 10 oed o Six Bells sydd wedi cwblhau her i ddarllen 2 miliwn o eiriau fel rhan o'r rhaglen Darllen Cyflymach. Roedd Tyler wedi dechrau'r her ym mis Medi ac wedi darllen ei filiwn cyntaf o eiriau erbyn y Nadolig ac ers hynny mae wedi darllen yr ail filiwn o eiriau gartref.<br><br>Roedd Tyler i fod wedi cael gwasanaeth cydnabyddiaeth arbennig | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn Ysgol Gynradd Six Bells ond ni fu hyn yn yn bosibl oherwydd cau ysgolion.<br><br>Felly roedd Aelod Gweithredol Addysg a Chadeirydd y Cyngor wedi anfon llythyrau at Tyler i'w longyfarch am ei gamp wych.<br><br>**<u>COVID-19 – Diwrnod Coffa – 23 Mawrth 2021</u>**<br><br>I gofio blwyddyn ers dechrau'r pandemig, nododd Aelodau a swyddogion funud o fyfyrio tawel i gofio'r rhai a gollwyd oherwydd COVID-19. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION – TACHWEDD 2020 – MAWRTH 2021</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Tachwedd 2020 – Mawrth 2021 i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gadarnhau'r cofnodion.<br><br>Ar y pwynt hwn, gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur am ddatganiad byr i ddiweddaru Aelodau ar blant yn dychwelyd i'r ysgol a'r nifer o achosion COVID-19 a adroddwyd wedyn.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg mai'r sefyllfa ar 24 Mawrth 2021 oedd bod 130 o ddisgyblion yn hunanynysu oherwydd y cydnabuwyd bod y disgyblion hyn yn rhan o grwpiau cyswllt lle cadarnhawyd achosion positif a chadarnhawyd 6 achos positif (o staff addysgu a disgyblion). Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn newid yn ddyddiol gan y derbyniwyd gwybodaeth y diwrnod hwnnw am achos positif arall a ddynodwyd mewn ysgol gynradd yn ardal Tredegar.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y drafodaeth flaenorol a gynhaliwyd am Aelodau lleol yn cael eu hysbysu am unrhyw achosion o fewn ysgolion a mynegodd ei phryder na dderbyniwyd yr wybodaeth hon y tro hwn.<br><br>Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg at y cytundeb sy'n edrych yn ôl i dymor yr hydref, sef os byddai unrhyw ysgolion neilltuol yn cael eu cau yr hysbysid Aelodau ac y byddent hefyd yn cael eu diweddaru'n gyfnodol ar y sefyllfa gyffredinol. Fodd bynnag ar y pwynt hwn nid oedd angen cau ysgolion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| No. 7 | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 8 | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 9 | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 10 | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 11 | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 12 | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 13 | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 14 | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O’R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 15 | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 16 | **<u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd. | |
| No. 17 | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 18 | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 19 | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 20 | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 21 | **PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 22 | **PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 23 | **PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 24 | **PWYLLGOR ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 25 | **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU**<br><br>Cytunwyd. | |
| No. 26 | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 27** | **<u>CWESTIYNAU GAN AELODAU</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau. | |
| **No. 28** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 29** | **<u>RHEOLI TRYSORLYS – DATGANIAD STRATEGAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH BUDDSODDI A DATGANIAD POLISI MRP 2021/2022 (YN CYNNWYS DANGOSYDDION DARBODUS)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau mai diben yr adroddiad yw ystyried y Datganiad Strategaeth Trysorlys, y Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad Polisi MRP i'w mabwysiadu ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022. Dywedwyd y cafodd yr adroddiad ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys sydd angen i Ddatganiad Strategaeth Trysorlys blynyddol gael ei gymeradwyo cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.<br><br>Byddai'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sy'n rhan o'r Datganiad Strategol Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/2022 yn cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn a byddid yn rhoi adroddiad ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Cyngor yr adeg honno. Roedd Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) 2021/2022 hefyd wedi ei gynnwys fel rhan o'r Datganiad Strategaeth Trysorlys. Nodwyd fod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol wedi craffu ar y Datganiad Strategaeth cyn ei argymell i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor ac mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu yn flaenorol, mae'r strategaeth nawr yn cynnwys adran yn ymwneud â buddsoddiadau moesegol – mae hyn yn Adran 4.7 Atodiad 1.<br><br>Mae'r Cod hefyd yn argymell fod y Cyngor yn creu a chynnal Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys, yn nodi'r polisïau ac amcanion ei weithgareddau rheoli trysorlys. Er nad yw'n ofyniad yn y Cod fod awdurdodau yn ceisio cymeradwyaeth i'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys, cafodd ei gynnwys yn yr adroddiad fel Atodiad B er gwybodaeth.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog y diweddarwyd y strategaeth i roi | |

| | | |
|---|---|---|
| | ystyriaeth i ragolygon diweddar (prif amcanion y datganiad strategaeth y cydymffurfir â nhw oedd diogelwch a hylifedd buddsoddiadau) a dywedodd nad oedd unrhyw newidiadau sylfaenol o gymharu gyda blwyddyn ariannol 2020/2021.<br><br>Daeth y Prif Swyddog i ben drwy gyfeirio at eitem Rhif 41 ar yr Agenda – Rheilffordd Glyn Ebwy a dywedodd, pe cytunid ar yr adroddiad, y byddai angen diwygio'r ffiniau gweithredol a'r terfynau a awdurdodwyd.<br><br>Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y Datganiad Strategaeth Trysorlys Blynyddol a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a'r Datganiad Polisi MRP ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 a'r Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 30** | **<u>STRATEGAETH CYFALAF 2021/2022</u>**<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Diben yr adroddiad yw rhoi cyfle i Aelodau ystyried a mabwysiadu'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, yn dilyn ei adolygiad blynyddol.<br><br>Nodwyd fod y Strategaeth Cyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut y mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys wedi cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau a sut y caiff risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r egwyddorion a'r fframwaith ar lefel uchel iawn sy'n llunio'r cynigion buddsoddiad cyfalaf.<br><br>Aeth y Prif Swyddog Adnoddau ymlaen drwy ddweud mai prif nod y strategaeth oedd cyflenwi rhaglen fforddiadwy o gyfalaf yn gydnaws gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol sy'n cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau ac amcanion yr awdurdod fel y'u hamlinellir yn y Cynllun Corfforaethol (h.y. byddai'n llywio'r ffordd y caiff amcanion gwasanaeth hirdymor eu cyflenwi). Yn ychwanegol, mae'n ystyried risgiau cysylltiedig yn neilltuol y rhai sy'n gysylltiedig gyda chyfleoedd masnachol a chyfyngiadau ariannol cydnabyddedig dros y tymor hirach.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a | |

| | | |
|---|---|---|
| | chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar Strategaeth Cyfalaf 2021/2022. | |
| **No. 31** | **<u>RHAGLEN CYFALAF 2020/21 HYD 2025/26</u>**<br><br>Cyflwynwyd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y Rhaglen Cyfalaf lawn (hyd 2025/26) a'r effaith ar y cyfalaf wrth gefn fel canlyniad i fuddsoddiadau cyfalaf diweddar a gymeradwywyd. Fel ym mis Hydref 2019 nodwyd fod cyfalaf wrth gefn o £2.843m yn parhau i gael ei ddyrannu ar ddyddiad yn y dyfodol.<br><br>Cymeradwywyd y cynlluniau ychwanegol yn ddiweddar (a fanylir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad) yn gyfanswm o £2,026,000 gyda chyllid pellach o £650,000. Arweiniodd hyn at gynnydd net yn y rhaglen cyfalaf a gostyngiad dilynol yn y cyfalaf wrth gefn o £1,376,000. Manteisiwyd ar y cyfle i edrych eto ar lefel y cyllid sydd ar gael ac mae tabl 2.3.2 yn dynodi y gellid cynnwys £630,000 ychwanegol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf – roedd hyn fel canlyniad i gyllid yn y gyllideb yn cael ei adolygu ar ôl derbyn y setliad diweddar gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Mae adran 2.4 yr adroddiad yn dynodi ailbroffilio cyfraniad y Cyngor i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cyflwyno nifer o gynlluniau. Roedd y proffil gwreiddiol wedi dynodi gofyniad cyllid gan y Cyngor o £4,940,000 ar gyfer y cyfnod 2017/18 i 2025/26, fodd bynnag mae'r proffil newydd angen cyllid o £5,543,000 yn ystod yr un cyfnod gydag angen y £603,000 arall yn 2026/27. Fodd bynnag, mae'r proffil diweddaraf gan y Fargen Ddinesig yn dangos y byddai angen y cyfraniad llawn o £5.54m erbyn 2020/23 ac mae hyn yn golygu y byddai angen £603,000 ychwanegol o fewn y rhaglen cyfalaf bresennol. Nodwyd fod y Fargen Ddinesig yn dod â'r proffil ynghynt oherwydd nifer o brosiectau a gymeradwywyd a phrosiectau yn yr arfaeth y disgwylid y byddent yn dechrau ac yn golygu gwariant yn ystod 2022/23.<br><br>Rhoddir effaith y newidiadau i'r rhaglen gyfalaf a'r cyfalaf wrth gefn ym mharagraff 5.1.2 yr adroddiad – mae'r gronfa wrth gefn sydd ar ôl ychydig dan £1.5m ar hyn o bryd. Argymhellwyd fod y Cyngor yn cadw cronfa cyfalaf wrth gefn gyda tharged o £1m oedd yn gyfwerth â 5% o adnoddau Blaenau Gwent ei hun yn y rhaglen | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfalaf. Pe byddai'r holl gyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu byddai cyllid cyfyngedig ar gael i'w ddyrannu i brosiectau'r dyfodol ac i fynd i'r afael ag unrhyw orwariant posibl mewn cynlluniau cyfalaf. Caiff manylion prosiectau'r dyfodol a gorwariant posibl eu cynnwys ym mharagraffau 5.2.2 a 6.1.1 yn yr un drefn.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer unrhyw ddefnydd neu gais i ddefnyddio'r gronfa gyfalaf wrth gefn.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:<br><br>- Cytuno i ailbroffilio cyllid y Fargen Ddinesig a nodi'r Rhaglen Gyfalaf wedi ei diweddaru ac effaith y cymeradwyaethau dilynol, cyllid diwygiedig ac ailbroffilio cyllid y Fargen Ddinesig ar y gronfa gyfalaf wrth gefn.<br><br>- Cytuno i gynnal cronfa gyfalaf wrth gefn gyda tharged o £1m yn gyfwerth â 5% o adnoddau Blaenau Gwent ei hun o fewn y rhaglen gyfalaf (2020/21 i 2025/26). | |
| **No. 32** | **<u>CYNLLUN BUDDSODDI TGCH</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd Wayne Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn y cyfarfod tra'i bod yn cael ei hystyried ond heb gymryd unrhyw ran yn y drafodaeth.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyd-swyddogion.<br><br>Amlinellodd y Prif Swyddog Interim Masnachol ddiben yr adroddiad sef rhoi set lawn o gynigion i'r Cyngor ar yr opsiynau buddsoddi sydd eu hangen i gadw seilwaith TGCh sefydlog a chryf.<br><br>Cafodd y cynigion eu gwahanu yn dri chategori sy'n anelu i ddisgrifio'r heriau cyfredol ac opsiynau'r dyfodol, sef:<br><br>- Cyfrifiaduron desg - cynigiwyd adnewyddiad 5-mlynedd o'r stad gliniaduron a chyfrifiaduron desg.<br>- Rhwydwaith a theleffoneg – cynigiwyd adnewyddu stad teleffoneg hen ffasiwn a gwella darpariaeth gwasanaeth sy'n cynnwys swyddogaeth switsfwrdd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Cofrestr contractau – gall fod cyfle i ostwng gwariant ar gontractau meddalwedd a chaledwedd allweddol a gaiff eu rheoli gan SRS ar ran y Cyngor a rhai a gaiff eu rheoli'n uniongyrchol gan y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys adolygiad o nifer o gysylltiadau PSBA a fedrai arwain at arbedion ariannol pe byddent yn cael eu gostwng.<br><br>Roedd profiad diweddar y pandemig a symud i weithio ystwyth wedi dangos sut y gallai technoleg gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei drefniadau democrataidd a darpariaeth gwasanaeth.<br><br>Daeth y Prif Swyddog Interim Masnachol i ben drwy ddweud bod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol ar 22 Ionawr a'r Pwyllgor Gweithredol ar 24 Chwefror 2021 wedi cymeradwyo Opsiwn 1.<br><br>Dechreuodd y Prif Swyddog Adnoddau drwy ddweud fod Adran 5 yr adroddiad yn dynodi'r buddsoddiad cyfalaf a refeniw sydd ei angen i gyllido'r cynigion gyda buddsoddiad dechreuol o £464,000 yn y ddwy flynedd gyntaf a ddilynir gan fuddsoddiad blynyddol wedyn o £166,000. Fodd bynnag, ers i'r adroddiad gwreiddiol gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol, roedd y Cyngor wedi derbyn Grant Trawsnewid Digidol gan Lywodraeth Cymru ac fel canlyniad cafodd y cynnig cyllid cyfalaf ar gyfer y buddsoddiad hwn ei ddiwygio i gynnig bod tair blynedd cyntaf y buddsoddiad yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn TGCh (£63,0900) a'r Grant Trawsnewid Digidol (£567,000).<br><br>Yn nhermau costau refeniw ar gyfer gweithredu Teleffoneg Teams a'r Ganolfan Cyswllt, amcangyfrifwyd eu bod tua £77,000 y flwyddyn. Byddai hyn yn cael ei gyllido o'r gyllideb refeniw a sefydlwyd gyda'r costau hyn yn disodli costau ar y trefniadau presennol na fyddai eu hangen mwyach.<br><br>Daeth y Prif Swyddog i ben drwy ddweud y disgwylid fodd bynnag y byddai rhai costau pontio wrth drosglwyddo o'r ddarpariaeth bresennol i'r trefniadau newydd a chynigwyd fod y costau hyn yn cael eu cyllido gan gronfa wrth gefn TGCh.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2, sef cymeradwyo'r buddsoddiad yn y seilwaith TGCh. | |
| **No. 33** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi fod lefel ddigonol o gymorth ar gyfer Aelodau Etholedig. | |
| **No. 34** | **<u>ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyd-swyddogion.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r 'gweithgaredd craffu' a gynhaliwyd gan bob Pwyllgor Craffu yn ystod 2019/20 a chyhoeddi'r adroddiad ar wefan Blaenau Gwent. | |
| **No. 35** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2021/22</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef nodi'r penderfyniadau a nodir yn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. | |
| **No. 36** | **<u>DATGANIAD POLISI TÂL 2021/22</u>**<br><br>Datganodd y swyddogion dilynol fuddiant yn yr eitem hon a gadael yr ystafell tra ystyriwyd yr eitem:<br><br>- Michelle Morris – Rheolwr Gorfforaethol<br>- Richard Crook – Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol<br>- Damien McCann – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol<br>- Lynn Phillips – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg<br>- Rhian Hayden – Prif Swyddog Adnoddau<br>- Bernadette Elias – Prif Swyddog Interim Masnachol<br>- Andrea Jones – Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol<br>- Andrea Prosser – Pennaeth Datblygu Sefydliadol<br>- Gina Taylor – Rheolwr Gwasaneath - Cyfrifeg | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Sean Scannell – Rheolwr Cyfathrebu, Marchnata a Mynediad Cwsmeriaid<br><br>Arhosodd y swyddogion dilynol yn y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei hystyried i gadw nodiadau o’r trafodion:<br><br>- Ceri Edwards-Brown – Swyddog Democrataidd<br>- Michelle Hicks – Swyddog Cymorth Democrataidd<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol i gael ei ystyried.<br><br>Nodwyd fod Deddf Lleoliaeth 2011, Pennod 8 (Adrannau 38 i 43) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Datganiad Polisi Tâl blynyddol sy’n rhaid iddo fanylu ar bolisïau’r Awdurdod yng nghyswllt amrywiaeth o faterion yn ymwneud â thâl ei weithlu, yn arbennig bolisïau’n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol ei staff uwch (Prif Swyddogion) a’r gweithwyr ar y cyflog isaf.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl 2021/2022.<br><br>Ar y pwynt hwn dychwelodd y swyddogion a enwir uchod a adawodd y cyfarfod tra bod yr eitem yn cael ei hystyried. | |
| **No. 37** | **<u>MODEL GWEITHREDU A THREFNIADAU GWEITHIO NEWYDD Y CYNGOR</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn fanwl am yr adroddiad sy’n ceisio cymeradwyaeth ar gyfer model gweithredu a threfniadau gweithio newydd ar gyfer y Cyngor. Mae hwn yn benderfyniad pwysig i Flaenau Gwent – y dewis yw p’un ai i ddychwelyd i sut y gweithredai’r Cyngor yn flaenorol wrth i’r wlad ddod allan o gyfnodau clo ac yn adfer o’r pandemig neu gymryd cam uchelgeisiol ymlaen a dysgu o’r profiad a’r ymateb dros y 12 mis diwethaf a dangos arweinyddiaeth gymunedol drwy greu sefydliad ystwyth a modern.<br><br>Nodwyd y byddai’r trefniadau gweithio newydd yn golygu symud i fodel gweithio ystwyth ar gyfer y gweithlu ar sail barhaol yn seiliedig ar y dysgu a phrofiadau o sut y gweithredodd y Cyngor | |

| | | |
|---|---|---|
| | dros y 12 mis diwethaf. Byddai hyn yn golygu y byddai angen penderfyniad i adael y Ganolfan Ddinesig yn barhaol a rhyddhau'r tir ar gyfer dibenion adfywio, creu Hyb Democrataidd newydd yn y Swyddfeydd Cyffredinol ar gyfer busnes ffurfiol y cyngor a chreu rhwydwaith o Hybiau Cymunedol yn rhannu lleoliad gyda llyfrgelloedd.<br><br>Cafodd y cynigion hyn eu datblygu dros nifer o fisoedd ac amlinellodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ddilyniant yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor ers mis Gorffennaf 2020 (paragraffau 2.5 – 2.7 yr adroddiad) a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2020 gydag adroddiad oedd yn argymell fod y sefyllfa a gytunwyd yn flaenorol yn y Cyngor, i symud ymlaen gyda chaffael Parc yr Ŵyl, yn cael ei adael i fuddsoddwyr preifat sydd wedi datgan diddordeb yn y safle i fynd ag ef rhagddo ond y dylai'r Cyngor symud ymlaen gyda'r agweddau eraill a gytunwyd yn y Cyngor (Hydref 2020) i ddatblygu'r cyfleuster democrataidd yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Hybiau Cymunedol mewn canol trefi a gadael a dymchwel y Ganolfan Ddinesig. Dywedwyd fod y dyraniadau cyfalaf i wneud y gwaith hwn wedi ei gytuno'n flaenorol gan y Cyngor.<br><br>Ers penderfyniad y Cyngor ym mis Tachwedd, mae'r Gweithgor Aelodau wedi gweithio gyda swyddogion a chynrychiolwyr undebau llafur i ddatblygu model ar gyfer y trefniadau gweithio newydd, yn seiliedig ar weithio ystwyth, a fyddai'n galluogi'r sefydliad i weithredu allan o'r swyddfeydd sydd ganddo ar ôl yn Llys Einion, ViTCC, y Swyddfeydd Cyffredinol ac adeiladau eraill priodol y Cyngor. Rhoddir manylion y cynigion hyn yn Adran 5 yr adroddiad.<br><br>Roedd nifer o fanteision yn gysylltiedig gyda gweithredu model gweithio ystwyth, yn cynnwys:<br><br>- Creu trefniadau gweithio hyblyg ac ystwyth ar gyfer staff ac oherwydd y byddai newidiadau i gontractau cynigid y darperid lwfans ar gyfer gweithwyr cartref ac ystwyth.<br>- Yn seiliedig ar dystiolaeth y byddai gwell cydbwysedd gwaith/bywyd gan ostwng y teithio dyddiol i ac o'r gwaith a pharhad lefel uchel o gynhyrchiant.<br>- Gostyngiad yn nifer y dyddiau a gollir oherwydd absenoldeb salwch.<br><br>Roedd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn cydnabod na fyddai'r trefniant yn gweddu'r holl staff a byddai'r model yn galluogi gwneud | |

addasiadau ar gyfer yr aelodau hynny o staff a allai fod mewn categori gweithwyr cartref neu ystwyth ond na fedrai wneud hyn ar sail barhaol oherwydd amgylchiadau personol.

Fel rhan o'r cynnig, byddai angen parhau i fuddsoddi mewn seilwaith TGCh a byddai hyn yn cynnwys buddsoddiad ac uwchraddio'r system deleffoneg i alluogi gwneud gwaith mewn ffordd ystwyth a symudol a gwella trefniadau cyswllt ar gyfer swyddogion a defnyddwyr gwasanaeth.

Yn nhermau manteision i'r Cyngor:

- Gwella drws blaen dinesig ar gyfer y Cyngor a busnes y Cyngor.
- Mwy deniadol fel cyflogwyr – cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y bobl hynny sy'n croesawu'r cyfle i weithio'n hyblyg.
- Gostwng costau ar gyfer adeiladau a chynnal a chadw. Gwneud y defnydd mwyaf posibl a mwy effeithiol o'r adeiladau sydd ar ôl.
- Datgarboneiddio – byddai gan y cynnig effaith gadarnhaol sylweddol ar yr uchelgais i ddod yn Gyngor net carbon erbyn 2030.
- Mae'r cynnig yn cefnogi gwahanol agweddau o Raglen Pontio'r Bwlch, y Strategaeth Ariannol Tymor Canol, y Cynllun Corfforaethol, y Strategaeth Datgarboneiddio a'r Strategaeth Fasnachol.
- Creu arweinyddiaeth gref o fewn y gymuned a fyddai'n arddangos adeiladu yn ôl i normal newydd a gwell wrth i adferiad o'r pandemig barhau.

Y manteision i'r preswylwyr a cymunedau oedd:

- Byddai Hybiau Cymunedol yn ffurfio rhan allweddol o'r trefniadau newydd a fyddai'n galluogi preswylwyr i gael mynediad lleol i'r Cyngor a gwell mynediad i'r sefydliad a'i wasanaethau. Byddai hyn yn galluogi adnoddau i gael eu buddsoddi mewn gwasanaethau rheng-flaen.
- Byddai'r cynnig yn datgloi cam nesaf adfywio Glynebwy gyda chlirio safle'r Ganolfan Ddinesig.

Yn nhermau busnes ffurfiol y Cyngor pan fyddai hyn yn gallu ailddechrau wyneb yn wyneb, byddai'n digwydd yn yr Hyb Democrataidd a darperir cyfleusterau i Aelodau fel yr oeddent ar gael yn flaenorol yn y Ganolfan Ddinesig. Byddai cyfarfodydd yn

| | | |
|---|---|---|
| | parhau yn defnyddio llwyfan Microsoft Teams i alluogi dull cyfunol at gyfarfodydd ar gyfer Aelodau a swyddogion i fynychu naill ai'n bersonol neu o bell. Nodwyd fod mynediad o bell i gyfarfodydd a darlledu cyfarfodydd yn fyw bellach yn ofyniad ym Mil Llywodraeth Cymru ac Etholiadau (Cymru).<br><br>Caiff yr achos ariannol dros y cynigion ei gynnwys o fewn yr adroddiad ym mharagraff 5.1. Nodwyd y byddai angen buddsoddiad cyfalaf ac amcangyfrifir y byddai cyfanswm costau cyfalaf datblygu'r Hybiau Democrataidd a Chymunedol, dadgomisiynu/dymchwel y Ganolfan Ddinesig ac ailwampio Llys Einion / VITCC yn £1.2m.<br><br>Mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno ar gyllid cyfalaf o £180,000 i gefnogi cyflenwi'r Hyb Democrataidd a Hybiau Cymunedol ac wedi cytuno y byddai'r costau ar gyfer dymchwel y Ganolfan Ddinesig yn cael eu gwrthbwyso gan dderbyniadau cyfalaf y byddid yn eu derbyn o werthu'r safle a amcangyfrifwyd fyddai'n sicrhau dros £650,000. Cynigiwyd bod gweddill y gofyniad cyfalaf yn cael ei gyllido drwy gyfraniad o refeniw, gan ddefnyddio cyllideb Trawsnewid 2021/2022. Yn ychwanegol, rhagwelir arbedion refeniw o £1.4m dros gyfnod o 5-mlynedd a fyddai'n helpu'n sylweddol gyda'r ymrwymiad i ostwng allbwn carbon fel sefydliad.<br><br>Daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy ddweud mai Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffafrir h.y. bod y Cyngor yn cymeradwyo'r model gweithredu newydd yn seiliedig ar weithio ystwyth, Hwb Democrataidd a Hybiau Cymunedol, a chadarnhaodd y gallai gwaith yn awr fynd rhagddo i ddadgomisiynu'r Ganolfan Ddinesig.<br><br>Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau (crynodeb islaw) gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr/Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol/Prif Swyddog Adnoddau/Prif Swyddog Interim Masnachol yn ymateb:<br><br>- Cyfeiriwyd at y gofyniad i gydymffurfio gyda rheoliadau GDPR a'r angen am gyfrinachedd tra bod staff yn gweithio gartref a mynegwyd pryder nad oedd hyn yn ffurfio rhan o'r 'risgiau' a ddynodir yn yr adroddiad ac y byddai hyn yn neilltuol o berthnasol pan fyddai dychwelyd i 'normal' a phobl yn cael caniatâd i ymweld â'i gilydd yn eu cartrefi. Yn ychwanegol, gan ei fod bellach flwyddyn ers cyflwyno gweithio ystwyth oherwydd y pandemig a'r angen i weithio gartref, holodd Aelod os y cynhelid arolwg staff arall i ganfod | |

eu barn.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr na chodwyd cyfrinachedd fel risg penodol oherwydd ei fod yn risg ym mha bynnag ddull y mae staff yn gweithio h.y. nid oedd yn fwy o risg oherwydd y cynnig hwn ac mae eisoes yn ffurfio rhan o'r Gofrestr Risg Corfforaethol fel rhan o'r trefniadau gweithio blaenorol. Fodd bynnag, yr oedd yn bwynt pwysig a hanfod cyfrinachedd yw pawb yn cynnal cyfrinachedd yng nghyswllt materion nad ydynt o fewn y parth cyhoeddus ac mae'n ddyletswydd ar bob swyddog ac Aelod i gynnal hyn. Yng nghyswllt GDPR, mae rheoliadau penodol yn ymwneud â data personol a'r angen am gydymffurfiaeth lle bynnag neu sut bynnag y mae staff yn gweithio. Ategodd y Rheolwr Gyfarwyddwr er y bod y rhain yn faterion pwysig eu bod yn risgiau sydd gan y sefydliad eisoes ac na chawsant eu dynodi'n benodol o fewn yr adroddiad oherwydd na fyddai'r risg yn cynyddu'n sylweddol. Fodd bynnag, byddai pwysigrwydd y materion hyn yn parhau i gael ei danlinellu i staff pa bynnag fodel gweithredu a fabwysiedir.

Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ymlaen drwy ddweud y cafodd canlyniadau'r arolwg staff a gynhaliwyd yr hydref diwethaf eu rhannu fel rhan o'r adroddiad, ac yn amodol ar benderfyniad y Cyngor, byddai ymgysylltu ac ymgynghori â staff yn bwysig iawn a chynhelir ymgysylltu ac ymgynghori pellach mewn cysylltiad gyda'r undebau llafur yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod fod swyddfeydd yn amgylcheddau a gaiff eu rheoli a mynegodd ei bryder fod mwy o gyfle a risg o gamgymeriadau yn digwydd pan oedd staff yn gorfod gweithio gartref neu o safleoedd eraill tebyg i lyfrgelloedd/hybiau cymunedol.

Atebodd y Rheolwr Gyfarwyddwr bod toriadau data a diogelwch wedi digwydd weithiau pan fu staff yn gweithio mewn amgylcheddau a reolir. Yn nhermau Hybiau Cymunedol, byddai trefniadau yn cael eu gwneud i gynnal trafodaethau o fath personol neu gyfrinachol mewn amgylchedd preifat ac nid o fewn gosodiad agored ehangach y llyfrgell.

- Cytunodd Arweinydd y Grŵp Llafur gyda'i gydweithiwr os caiff gwaith ei wneud mewn amrywiaeth o osodiadau yna

mae'n sicr fod y risg yng nghyswllt cyfrinachedd a GDPR yn uwch. Aeth ymlaen drwy roi ar y cofnod ei siom na chafodd yr adroddiad pwysig a sylweddol hwn ei ystyried fel rhan o'r broses craffu (nodwyd y gwnaed cynnig ym mis Tachwedd i sefydlu Gweithgor Aelodau Trawsbleidiol i drafod y mater a fyddai'n adrodd yn ôl i'r pwyllgor craffu). Teimlai fod yr adroddiad yn fanteisgar a mynegodd ei bryder y cafodd yr adroddiad ei dderbyn yn hwyr ac y bu'n rhaid i Aelodau gael briffiad Grŵp heb weld yr wybodaeth hon. Yn ychwanegol, canfuwyd ychydig wythnosau yn ôl fod staff eisoes wedi cael cais i wagu eu desgiau yn y Ganolfan Ddinesig cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y trefniadau gwaith a gynigir ar gyfer y dyfodol a dywedodd fod hyn yn anfaddeuol.

Yng nghyswllt yr adroddiad, dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y gellid gweld hyn mewn gwahanol ffyrdd. Tra bod prif swyddogion a'r arweinyddiaeth yn teimlo ei fod yn uchelgeisiol a blaengar, a gallai fod elfennau'n ddefnyddiol yn y dyfodol, fodd bynnag mae'r wlad yn dal i fod mewn cyflwr o ansicrwydd. Dim ond deuddydd yn flaenorol roedd y wlad wedi nodi un flwyddyn ers dechrau'r pandemig ac mewn blwyddyn arall byddai mwy o ddealltwriaeth o oblygiadau'r feirws/pandemig ac os gallai fod dychwelyd posibl i amgylchedd cyfarfodudd ffisegol.

Aeth Arweinydd y Grŵp Llafur ymlaen drwy ddweud fel y cyfeiriwyd eisoes, efallai nad yw'r model yn gweddu yr holl staff. Clywyd straeon drwy gydol y pandemig am bobl yn dioddef o broblemau iechyd meddwl a gofynnodd y cwestiynau dilynol:

- A oedd yr undebau llafur yn cefnogi'r adroddiad yn llwyr?

- Cyfeiriwyd at y Rhaglen Trawsnewid Gweithle a gynhaliwyd yn Llys Einion yn 2015 ar gost o £2.5m. Byddai cyfran o'r gost yma (£750,000) wedi ei gyllido drwy fenthyca darbodus. Beth yw statws bresennol yr ad-daliadau hyn ar y swm a fenthycwyd a phe byddai'r Ganolfan Ddinesig yn cael ei dymchwel a'r tir yn cael ei werthu, beth fyddai'r goblygiadau i'r benthyca darbodus hwn h.y. a fyddai'n rhaid ei ad-dalu yn llawn?

Cynghorodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn nhermau craffu ar

gyfer hyn a chyflwynwyd adroddiadau blaenorol yn uniongyrchol i'r Cyngor gan eu bod yn faterion i bob Aelod eu craffu a chafodd grwpiau gwleidyddol y cyfle i gael eu briffio ar yr adroddiad cyfredol cyn a hefyd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

Yng nghyswllt staff yn adleoli o'r Ganolfan Ddinesig, ni roddwyd unrhyw gyfarwyddyd i hyn ddigwydd – roedd gwaith paratoi ar gyfer adleoli ar y gwell yn y cefndir a chafodd y gwaith hwn ei gymeradwyo gan y Cyngor fis Tachwedd diwethaf.

Yn nhermau'r undebau llafur, roedd yr Ysgrifennydd Cangen a Chadeirydd Cangen y Cyd Undebau Llafur yn aelodau o'r gweithgor ac wedi cymryd rhan yn y trafodaethau am y model gweithredu ac yn gefnogol i'r cynigion. Ychwanegodd y Rheolwr Gyfarwyddwr pe byddai'r undebau wedi bod yn bresennol yn y Cyngor y byddent yn cytuno ei bod yn hanfodol wrth symud ymlaen fod ymgysylltu ac ymgynghori cryf gyda'r undebau llafur a'r staff i sicrhau nad yw'r staff hynny sy'n cael anawsterau gyda'r ffordd hon o weithio yn cael eu gorfodi i wneud hynny yn y dyfodol.

Ar y pwynt hwn dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau na fedrai gadarnhau'n benodol os y cafodd y benthyca darbodus ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Gweithle ei ad-dalu oherwydd na amlygir benthyciadau unigol oherwydd fod benthyciadau'n cael eu had-dalu yn rheolaidd a benthyciadau newydd yn cael eu cymryd ar logau gwell. Fodd bynnag, gallai gadarnhau pan gymerwyd y benthyciad darbodus gwreiddiol ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Gweithle, y cafodd y lefel perthnasol o arbedion ei dynodi i ad-dalu'r benthyciad hwnnw ac felly na ddylai fod unrhyw effaith ychwanegol ar y rhai sy'n talu'r dreth gyngor pe byddai'r cynnig yn symud ymlaen.

Anghytunodd Arweinydd y Grŵp Llafur gyda'r ymateb hwn a dywedodd bryd hynny y cyflwynwyd adroddiad ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Gweithle yn costio £2.5m ac y dywedwyd fod yn rhaid ad-dalu benthyciadau, ac felly mae'n anochel y byddai peth o'r ddyled hon yn syrthio ar y rhai sy'n talu'r dreth gyngor.

Aeth ymlaen drwy ddweud fod ganddo bryderon ychwanegol

am eitem rhif 41 – Rheilffordd Cwm Ebwy sy'n cyfeirio at gynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r trenau i deithio i'r gwaith ond roedd sylfaen yr adroddiad yn gofyn am y gwrthwyneb h.y. i bobl aros gartref. Teimlai Arweinydd y Grŵp Llafur fod y penderfyniad hwn yn cael ei ruthro oherwydd y gallai fod goblygiadau a newid cyfeiriad ar gyfer llywodraeth leol yn dibynnu ar ganlyniad yr etholiadau i Senedd Cymru ar 6 Mai 2021. Yn ychwanegol, bu anghytuno sylweddol dros gyfnod am Llys Einon a byddai'r adroddiad hwn yn clymu'r Cyngor i drefniant hirdymor arall. Daeth i ben drwy ddweud y dylid edrych ar y mater hwn eto mewn 12 mis a fyddai'n rhoi'r cyfle i graffu'r adroddiad gan wybod am y sefyllfa wleidyddol yng Nghymru, gwybodaeth o'r pandemig, a'r effaith a'r goblygiadau a gafodd y feirws ac yn parhau i'w gael ar breswylwyr. Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y byddai'n cynnig argymhelliad amgen ar yr adeg briodol.

- Mynegwyd amheuon am y ddarpariaeth desgiau symudol a sut y byddid yn cyflawni hyn ar gyfer cyfarfodydd cyfunol pan y cafodd mannau cyfarfod eraill yr awdurdod lleol eu trefnu ar gyfer cyfarfodydd cyfunol gyda desgiau sefydlog a'r seilwaith technoleg gwybodaeth berthnasol. Mynegwyd pryder hefyd na fyddai'r ystafelloedd yn y Swyddfeydd Cyffredinol bellach ar gyfer i'w llogi ac y byddai hyn yn arwain at golli incwm rhent ar gyfer y safle.

  Aeth yr Aelod ymlaen drwy gyfeirio at y brydles newydd ar gyfer Llys Einion a'r sylwadau a wnaed ym mriffiad y Grŵp y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa gref i gael rhent is. Holodd sut y gellid cyflawni pan mai dim ond un adeilad sydd ar gael ar gyfer swyddfa. Ychwanegodd y dylid bod wedi craffu'n fanwl ar yr adroddiad gan bod nifer fawr o gwestiynau yn parhau heb eu hateb ac fel y gellid bod wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i ymchwilio opsiynau swyddfa arall yn cynnwys adeiladu safle pwrpasol yng nghefn y Swyddfeydd Cyffredinol.

  Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod yr achos busnes a ystyriwyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd wedi cynnwys opsiwn i adeiladu swyddfa newydd bwrpasol ond teimlid nad oedd hynny'n opsiwn cost effeithlon bryd hynny ac nad oedd y Cyngor wedi cyfarwyddo swyddogion i gynnal unrhyw waith pellach ar yr opsiwn neilltuol hwnnw.

Mewn ymateb i sylw, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei bod wedi gwneud datganiad ym mriffiad y Grŵp nad oedd swyddogion wedi derbyn cyfarwyddyd i ymchwilio adeiladu ar safleoedd eraill oherwydd bryd hynny nid oedd Aelodau wedi bod eisiau mynd ar ôl adeilad newydd. Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn opsiwn dilys o fewn yr achos busnes beth bynnag oedd y penderfyniad a gymerwyd yng nghyswllt Parc yr Ŵyl.

Mewn ymateb i gwestiwn am Llys Einion, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol iddo ddweud y byddai'r Cyngor mewn sefyllfa '*gref'* i negodi gyda'r landlord ac nid sefyllfa 'well'. Nodwyd fod y drafodaeth am brydles Llys Einon wedi dechrau'n gynnar gan fod nifer arall o flynyddoedd i fynd ar y brydles bresennol ac y byddai hyn yn galluogi dynodi darpariaeth arall pe na fyddid yn dod i gytundeb.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i symud yr Hyb Democrataidd i'r Swyddfeydd Cyffredinol ond fod yn dal i fod angen cadw pellter cymdeithasol oherwydd y rheoliadau cenedlaethol presennol. Dim ond mewn un safle y byddai'n bosibl cynnal rhai Pwyllgorau yn defnyddio pellter cymdeithasol ac mae ymchwiliadau'n mynd rhagddynt i ddarparu un o'r ystafelloedd yn barhaol a ddefnyddid fel prif safle'r pwyllgorau. Mae system cynrychiolwyr symudol hefyd wedi ei sicrhau i'w ddefnyddio yn y cyfarfodydd hyn.

Mynegodd yr Aelod ei phryder am amseriad y cynnig a bod cyfleusterau yn cael eu darparu ar gyfer 42 cynghorydd pan y gallai fod gostyngiad yn nifer y cynghorwyr yn dilyn yr etholiad nesaf oherwydd yr Adolygiad Ffiniau Llywodraeth Leol a gall hyn olygu gwariant diangen.

- Cyfeiriodd Aelod arall at waith adnewyddu sylweddol a ddigwyddodd yn y Ganolfan Ddinesig yn cynnwys Swyddfa'r Arweinydd yn ystod y cyfnod hwn yn y swydd a thybiai fod yn rhaid i'r prif swyddogion ac uwch Aelodau fod wedi sylweddoli cyn gwneud y buddsoddiad hwn eu bod yn 'taflu arian da ar ôl gwael' gan y bu cynlluniau mewn bodolaeth ers 2012 i ddefnyddio'r Swyddfeydd Cyffredinol. Daeth i ben drwy ddweud na chafodd unrhyw flaenystyriaeth ei roi i'r cynigion hyn.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y gwariant ar y Ganolfan Ddinesig a dywedodd y cafodd nifer o adroddiadau eu hystyried a gytunwyd ym mis Medi, mis Hydref a mis Tachwedd i symud ymlaen gyda'r Hyb Democrataidd a'r Hyb Cymunedol ac roedd adroddiad mis Tachwedd, oedd yn cynnwys datganiad na chafodd ei herio, yn cyfeirio at y ffaith yr amcangyfrifwyd mai dim ond 4 mlynedd o oes oedd gan y Ganolfan Ddinesig ar ôl. Dywedodd, pe byddid wedi dweud wrtho yn 2017 mai oes gyfyngedig oedd gan yr adeilad, na fyddai'r gwaith wedi ei wneud ar hen Barlwr y Maer a'r Ystafell Fwyta ac y byddid wedi dynodi datrysiad arall.

Aeth ymlaen drwy ddweud, fodd bynnag, y bu'r rhan fwyaf o'r gwariant i unioni hen waith trydanol. Fel canlyniad, cafodd ystafell ei chreu ar gyfer yr Arweinydd a gofod gweithio mwy derbyniol ar gyfer swyddog cymorth yr Arweinydd. Yn ychwanegol, roedd y Grŵp Llafur wedi cael swyddfa a gofod cyfarfod am y tro cyntaf a chafodd hen Ystafell Fwyta y Maer ei throi yn ystafell gyfarfod er budd pob cynghorydd a swyddog i'w defnyddio. Nodwyd y bu safleoedd ar gyfer cyfarfodydd yn brin ers trawsnewid gweithle 2014. Y dewis arall oedd gadael yr ystafelloedd hyn yn wag neu eu defnyddio ar gyfer budd pawb ar y cyd, yn cynnwys y Grŵp Llafur.

Am y tro cyntaf pan oedd gwestion pwysig tebyg i Weinidogion yn ymweld â'r awdurdod roeddent yn medru cyfarfod yn y Ganolfan Ddinesig yn hytrach na theithio i'r Swyddfeydd Cyffredinol oherwydd cyflwr cyffredinol yr ardal ddemocrataidd – felly nid oedd hyn yn wariant gormodol mewn gwirionedd.

Yn nhermau'r adroddiad daeth Arweinydd y Cyngor i ben drwy ddweud fod swyddogion wedi gweithredu ar y penderfyniad a gymerodd y Cyngor ym mis Tachwedd ac yn awr yn cyflwyno eu canfyddiadau.

- Cydnabuwyd nad yw'r Ganolfan Ddinesig bellach yn addas i'r diben ond mynegwyd pryder y dylai'r Hybiau Cymunedol fwydo i swyddfa ganolog ac mae angen hyn hefyd ar gyfer cydlyniaeth staff. Roedd yr Aelod yn bryderus fod llywodraeth leol yn dirywio a theimlai na fedrai preswylwyr gael gwasanaethau drwy'r Hybiau Cymunedol ac yn teimlo

wedi eu gadael allan. Er ei bod yn gweld manteision cael gwared â'r Ganolfan Ddinesig, gofynnodd os y medrid ymchwilio manteision adeiladu pencadlys newydd a fyddai yn llawer mwy effeithlon.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr eto at yr achos busnes a ystyriwyd y llynedd a dywedodd y byddai'r gost o greu adeilad newydd angen buddsoddiad sylweddol tu hwnt i'r hyn a dderbynnid ar gyfer y Ganolfan Ddinesig.

- Dywedodd Aelod mai ei farn ef fod yr adroddiad yn ymwneud â gostwng costau ac ateb targedau'r llywodraeth. Nid yw'n ystyried materion ymarferol bywyd bob dydd a'r math o gartrefi (tai teras bach) y mae'r rhan fwyaf o deuluoedd yn yr ardal yn byw ynddynt. Dywedodd mai'r rheswm pam y lledaenodd y feirws mor gyflym pan oedd y pandemig ar ei waethaf oedd oherwydd fod pobl yn ymweld â chartrefi ei gilydd oherwydd eu bod yn byw mewn cymunedau clos. Nid oes gan y rhan fwyaf o staff le ar gael o fewn eu cartrefi ar gyfer swyddfa ar wahân na thai addas ar gyfer gweithio gartref. Teimlai y dylid fod wedi rhoi llawer mwy o ystyriaeth i'r adroddiad yn cynnwys craffu ac opsiynau eraill a ystyriwyd o amgylch Llys Einion a'r Swyddfeydd Cyffredinol.

  Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cydnabyddir na fyddai'r model gweithio hwn yn addas ar gyfer yr holl staff ac y gellid gwneud addasiadau priodol os nad yw staff yn medru gweithio gartref ar sail barhaol.

- Cytunodd Aelod arall gydag egwyddor y syniad o Hybiau Cymunedol. Fodd bynnag cyfeiriodd at bortffolio adeiladau'r Cyngor sydd ar gael mewn canol trefi ac o amgylch a allai fod yn addas ac yn hygyrch ar gyfer yr hybiau hyn a gofynnodd am i'r manylion fod ar gael i Aelodau. Yn ychwanegol, gellid edrych ar y portffolio o adeiladau i ganfod os gellid darparu darpariaeth arall yn hytrach na defnyddio Llys Einion lle mae'r Cyngor wedi gwario swm sylweddol yn ei gynnal, er nad yw'n berchen arno.

  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gallai roi gwybodaeth ar y portffolio o adeiladau os yw'r Cyngor yn penderfynu hynny ond dywedodd pe byddid yn edrych ar safleoedd amgen, y byddai hyn yn newid amserlen y cynigion. Nodwyd mai'r cynnig oedd y byddai'r Hyb

| | | |
|---|---|---|
| | Cymunedol yn yr un lleoliad â’r llyfrgelloedd.<br><br>- Ni roddwyd yr holl wybodaeth h.y. pa gynlluniau eraill yr oedd y Gweithgor wedi eu hystyried ac ni fedrai Aelod ddeall pam na sefydlwyd Gweithgor Aelodau Trawsbleidiol i ystyried model gweithredu newydd. Mynegwyd pryder y byddid yn colli masnach yng nghanol tref Glynebwy pe byddai’r Ganolfan Ddinesig yn cau. Daeth yr Aelod i ben drwy ofyn am i gostau’r cynnig hwn ynghyd â’r opsiynau eraill fod ar gael.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd y cynigion eraill eu cynnwys o fewn yr achos busnes a ystyriodd y Cyngor ym mis Tachwedd. Mewn ymateb i gais, cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y caiff yr achos busnes ei ailgylchredeg i bob Aelod.<br><br>- Dywedodd Aelod eraill yr awgrymwyd yn ystod y briffiadau Grŵp, pe cytunid ar y gweithio model ystwyth, y gallai ymgeiswyr gael eu denu i swyddi gwag o bob rhan o’r wlad a mynegodd ei bryder pe byddai hyn yn digwydd y gallai arwain at effaith niweidiol ar y gymuned a rhagolygon swyddi pobl ifanc yn yr ardal.<br><br>Er y nodwyd y byddai angen dyraniad cyfalaf o £180,000 ar gyfer yr Hybiau Democrataidd/Cymunedol, ni roddwyd unrhyw gostau penodol eraill yn nhermau costau adleoli/symud adrannau eraill neu yn wir fanylion lle y byddent. Yn ychwanegol, os oedd elfen o fenthyca darbodus yn gysylltiedig gyda’r Ganolfan Ddinesig, mae angen cadarnhad os byddai’n rhaid ad-dalu y benthyciad a’r effaith y byddai hyn yn ei gael ar drafodion unrhyw werthiant. Dywedodd y byddai’n bosibl y gellid cymryd cryn amser i werthu’r tir.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr nad yw adrannau yn adleoli – mae hon yn ffordd wahanol o weithredu a byddai swyddi yn cael eu dynodi fel rhai ystwyth, cartref neu gymunedol. Byddai gan bob gwasanaeth gymysgedd o weithio gartref a gweithio hyblyg a phan fyddai staff yn gweithio o swyddfa, byddent yn gweithio wrth ochr cydweithwyr o feysydd gwasanaeth eraill – mae’n fodel gweithredu corfforaethol. | |

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau iddo wneud rhai ymholiadau parthed benthyca darbodus ers i Arweinydd y Grŵp Llafur ofyn y cwestiwn gwreiddiol, a chadarnhaodd y cymerwyd benthyciad o tua £700,000 ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd i gyllido'r Rhaglen Trawsnewid Gweithle. Er na chafodd y benthyciad hwn ei ad-dalu, nid oedd dim o'r benthyca a wnaethpwyd wedi cysylltu'n benodol gyda'r Ganolfan Ddinesig felly ni fyddai unrhyw gyfyngiadau/rhwystrau cyfreithiol fyddai'n golygu na fedrid dymchwel yr adeilad a gwerthu'r tir.

Mewn cwestiwn ynghylch cymalau cymdeithasol yn cael eu cynnwys o fewn telerau ac amodau swyddi i warchod y gymuned a phobl ifanc, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y byddai deddfwriaeth yn atal y dull hwn o weithredu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y bu newid seismig yn y farchnad gyflogaeth a'r ffordd y mae pawb yn gweithio a dywedodd y byddai cyfleoedd yn agor lan ar gyfer pobl ifanc a staff presennol o fewn yr economi byd-eang y gellid yn awr eu cyrchu o gartref. Dywedodd fod tystiolaeth gref i awgrymu fod pobl oedd yn gweithio gartref yn gwario eu harian yn lleol.

- Mae hwn yn gyfle delfrydol i ddod â'r Cyngor i'r 21ain ganrif a bod yn gynaliadwy yn y dyfodol. O ganlyniadau'r arolwg, bu staff yn gadarnhaol iawn am weithio ystwyth a byddai'n rhoi cynhwysiant ar gyfer rhai gyda galluoedd amrywiol. Dylid defnyddio'r cyfle hwn er budd staff ac aelodau'r cyhoedd.

Yn dilyn trafodaeth faith,

Cynigiodd Arweinydd y Cyngor y dylid cymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig.

Ar ran y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Lleiafrifol, cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur yr **argymhelliad amgen dilynol:**

**Gohirio'r penderfyniad am 12 mis gan roi ystyriaeth i'r dilynol:**

- **Yr angen i gael gwell dealltwriaeth o ble byddai'r wlad mewn blwyddyn arall yng nghyswllt y pandemig.**

| | | |
|---|---|---|
| | • **Pryderon parhaus am yr amodau yn Llys yr Einion a'r trefniant prydles.**<br>• **Newid posibl yng nghyfeiriad gwleidyddol Senedd Cymru parthed dyfodol llywodraeth leol.**<br>• **Diffyg craffu cywir ar y prosiect, yn neilltuol ar effaith gweithio gartref ar staff**<br><br>**Eiliwyd y cynnig amgen hwn.**<br><br>Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.<br><br>**O blaid y cynnig amgen –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, M. Holland, H. McCarthy, J. Millard, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, B. Willis, L. Winnett.<br><br>**Yn erbyn y cynnig amgen** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, S. Healy, J. Hill, W. Hodgins, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, M. Moore, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, B. Thomas, G. Thomas, J. Wilkins.<br><br>**<u>Ni chariwyd</u> y bleidlais ar y cynnig amgen.**<br><br>Felly cynigiwyd ac eiliwyd bod **Opsiwn 1 (yr opsiwn a ffafrir) yn cael ei gadarnhau a'i gymeradwyo.** Gan nad oedd unrhyw Aelod wedi ymatal rhag pleidleisio, nid oedd angen pleidlais bellach wedi'i chofnodi a **<u>chariwyd</u>** Opsiwn 1.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r model gweithredu newydd yn seiliedig ar weithio ystwyth, hyb democrataidd a hybiau cymunedol ac y gallai gwaith fynd ymlaen i ddadgomisiynu'r Ganolfan Ddinesig. | |
| **No. 38** | **<u>CYNNIG – PRYDAU YSGOL AM DDIM</u>**<br><br>Ystyriodd y Cyngor y cynnig dilynol gan Unite Cymru.<br><br>Er y croesewir symudiad Llywodraeth Cymru i ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i'r rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd tan y Pasg 2022 yn cynnwys gwyliau ysgol, roedd hyn yn anffodus yn golygu nad yw'r holl blant hynny sy'n byw mewn | |

| | | |
|---|---|---|
| | cartrefi ar fudd-daliadau, p'un ai'n gredyd cynhwysol, credyd treth gwaith neu fudd-daliadau gwaddol, oherwydd y gosodwyd y trothwy ar £7,400 neu enillion fisol yn llai na £610, yn derbyn prydau ysgol am ddim gan olygu mewn gwirionedd fod mwy mewn tlodi yn mynd heb yn hytrach na chael.<br><br>Felly PENDERFYNODD y Cyngor yn unfrydol:<br><br>- Cydnabod y ffaith ofidus fod 30% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi ac eto mai dim ond 13% sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y 17% arall o blant yn byw ar aelwydydd incwm isel lle maent ychydig dros y meini prawf presennol ar gymhwyster.<br><br>- Nodwyd fod gan Loegr a'r Alban brydau ysgol am ddim i bob plentyn yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2, ac nad yw hynny'n wir yng Nghymru.<br><br>- Galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau costau, cyllideb a darparu fel mater o frys i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob plentyn sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru ond a gaiff eu heithrio rhag bod â hawl dan y meini prawf presennol ar gymhwyster.<br><br>- Cytunwyd na ddylai unrhyw blentyn fynd yn newynog ac y dylai hyn fod yn gam tuag at ymestyn prydau ysgol am ddim i bob plentyn yng Nghymru fel y gelwir amdano gan wahanol grwpiau yng Nghymru, yn cynnwys y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant a Chynulliad y Bobl, Cymru. | |
| **No. 39** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**<u>Cyngor Iechyd Cymunedol Aneurin Bevan</u>**<br>- i benodi cynrychiolydd newydd.<br><br>Dywedodd yr Arweinydd nad oedd wedi derbyn unrhyw enwebiadau ar gyfer y swydd hon ar hyn o bryd ac estynnodd wahoddiad i Arweinwyr Grŵp eraill i gyflwyno datganiadau diddordeb.<br><br>**<u>Panel Ymgynghori ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yr</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Awdurdod Lleol**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol gan y Panel ar 4 Mawrth 2021 i benodi:<br><br>**Ysgol Gynradd Deighton** – Cynghorydd H. Trollope & Delyth Pearsall<br><br>**Ysgol Arbennig Pen y Cwm –** Tim Baxter<br><br>**Ysgol Gynradd Rhiw Beaufort** – Frances Lynch<br><br>**Ysgol Gynradd Cwm -** Kathryn Cross<br><br>**Ysgol Gynradd Ystruth –** Kerys Beese<br><br>**Cymuned Ddysgu Abertyleri –** Jack Newtown<br><br>**Canolfan yr Afon -** Raymond Harris, Lee Powell a Jan English<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD i gymeradwyo'r apwyntiadau uchod. | |
| **No. 40** | **EITEM(AU) EITHRIEDIG**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiadau dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitemau eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rhesymau am y penderfyniadau am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 41** | **SAFLE NMC, BRYNMAWR**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. C. Morgan fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn y cyfarfod tra'r oedd yn cael ei hystyried ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth.<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Busnes ac Adfywio.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a rhoi manylion cwmpas a chefndir y prosiect. Rhoddir yr wybodaeth hon yn adrannau 2.1 – 2.11 yr adroddiad.<br><br>Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na wyddai am unrhyw yswiriant neilltuol y gellid ei gymryd i indemnio'r risg ond dywedodd y gellid ymchwilio hyn. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n rhaid talu'n ddrud am y math hwn o yswiriant ac nad oedd hynny yn y gyllideb.<br><br>Mynegodd yr Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd ei werthfawrogiad i swyddogion am ddod â'r prosiect hwn i ffrwyth a chynigiodd gymeradwyo Opsiwn 2.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) a chymeradwyo Opsiwn 1, sef awdurdodi'r Weithred Blaenoriaeth gan alluogi'r prosiect i fynd rhagddo.<br><br>Mynegodd Aelod Ward ei werthfawrogiad i'r Cyngor am gefnogi'r proseict hwn a fyddai'n ei gwneud yn bosibl dod â safle ddiffaith tir llwyd yn ôl i ddefnydd. | |
| **No. 42** | **<u>RHEILFFORDD CWM EBWY</u>**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd). | |

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fanylion y cynnig a fyddai'n cynorthwyo gyda gweithredu'r seilwaith sydd ei angen i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru a hefyd y Cyngor sef cynyddu amlder gwasanaethau. Nodwyd y byddai'r benthyciad di-log ac na fyddid yn ei gymryd nes y cynhaliwyd diwydrwydd dyladwy ac y cytunwyd i sefydlu trefniant cyd-fenter – os na chytunir ar hyn, byddai'r arian yn cael ei ad-dalu'n llawn.

Wedyn gofynnwyd am farn Aelodau (crynodeb islaw), gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol/Prif Swyddog Adnoddau yn ymateb:

- Dywedodd Aelod mai dim ond os y gwarentir dolen Casnewydd ac y gwneir y gwaith mewn partneriaeth gyda Chaerffiili a Chasnewydd a bod y baich ariannol yn cael ei rannu rhwng y tri awdurdod y byddai'n cefnogi'r cynnig.

  Cydnabu'r Aelod gyfle gangen i Abertyleri ond dywedodd fod y pandemig wedi rhwygo canol tref Abertyleri gyda siopau wedi cau a gofynnodd os cynhelir asesiad effaith i asesu unrhyw effaith posibl y byddai hyn yn ei gael ar fusnesau presennol. Daeth i ben drwy ddweud y gallai cynyddu nifer y trenau i 4 yr awr fod yn ormod ac y gallai o bosibl wneud y llinell yn anhyfyw yn y dyfodol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu trafodaeth sylweddol pan agorodd y rheilffordd gyntaf am ddefnydd gan deithwyr ac roedd y modelu wedi ei seilio ar lefelau defnydd hysbys – byddai Astudiaeth WelTAG yn penderfynu os yw nifer defnyddwyr yn realistig. Yng nghyswllt canol y dref, byddai hyn yn cael ei ailasesu i benderfynu sut y gellid newid y dref dros gyfnod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd rhwng y dref a'r ddolen reilffyrdd. Nodwyd y cynhelir asesiad o'r effaith economaidd fel rhan o'r proseict.

  Byddai'r gwaith yn nhermau dolen Casnewydd yn dibynnu ar drydydd parti a chaiff hyn ei gynnwys fel rhan o'r cytundeb Cydfenter a fyddai'n nodi'r prif ganlyniadau ar gyfer y prosiect. Yn nhermau gweithio partneriaeth gyda'r ddau awdurdod arall, nid oes unrhyw reswm pam na fedrai'r tri

chyngor gydweithio i fanteisio i’r eithaf ar y buddion yn y dyfodol a dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y gallai hyn ffurfio rhan o ymgysylltu yn y dyfodol.

Yn nhermau cwestiwn am risg yn nhermau cynnydd yn y MRP, cadarnhawyd pe derbyniwyd y benthyciad ac na chytunwyd ar y Gyd-fenter, gellid ad-dalu’r cyllid felly ni fyddai unrhyw oblygiadau risg i’r Cyngor. Fodd bynnag, pe gellid cyflawni’r ffrwd incwm, ni fyddai angen y ddarpariaeth MRP.

- Mynegodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei bryder am gynnydd posibl yn y MRP gan y byddai eisoes gynnydd o £1.8m ar gyfer 2022/23. Er nad yw’n gwrthwynebu’r cynnig, dywedodd y byddai’n cynnig argymhelliad amgen ar yr adeg priodol.

- Dywedwyd y byddai llai o bobl yn defnyddio trenau i fynd i’r gwaith pan maent yn gweithio gartref a mynegwyd pryder na fyddai’r awdurdod yn medru adennill yr arian ac y gallai hyn arwain at rwymedigaeth fawr i Flaenau Gwent, sy’n ardal amddifadus. Felly, dylai’r ymrwymiad cyllid gael ei rannu rhwng yr holl gynghorau a fyddai’n manteisio o’r cynnig. Teimlai’r Aelod y dylai’r sefyllfa gael ei hasesu ar hyn o bryd ac yn dilyn Covid a dywedodd nad dyma’r amser cywir i wneud y penderfyniad.

Gadawodd y Cynghorydd W. Hodgins y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod defnydd yn allweddol a bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal eu diwydrwydd dyladwy eu hunain ar y gwaith modelu a rhoddodd sicrwydd na fyddai unrhyw effaith ar y trethdalwyr ym Mlaenau Gwent ar gyfer unrhyw ad-dalu. Tanlinellodd na fedrid derbyn y benthyciad nes y sefydlwyd y cytundeb Cyd-fenter.

- Dywedodd Aelod arall y dylid defnyddio’r cyllid i wella’r cysylltedd a’r seilwaith trafnidiaeth o fewn yr holl Fwrdeistref Sirol. Byddai hyn yn galluogi preswylwyr i deithio i gyfleoedd cyflogaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol a dylid rhoi blaenoriaeth uwch iddo. Yn ychwanegol, gallai’r cynnig o bosibl roi baich ariannol ar y weinyddiaeth nesaf a theimlai’r Aelod nad dyma’r amser cywir i wneud y penderfyniad.

- Cyfeiriwyd ar brosiectau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a bod prosiect cangen Abertyleri heb ei benderfynu a dywedodd fod angen mwy o eglurdeb ar y cynnig hwn.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod cangen Abertyleri a'r Metro yn ffurfio rhan o brosiectau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – mae'r cynnig hwn yn brosiect ar wahân a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd prosiect cangen Abertyleri y Fargen-Ddinesig ei adael heb ei benderfynu ar hyn o bryd oherwydd ei fod yn ffurfio rhan o brosiect mwy. Tanlinellodd y byddai cyllid yn cael ei ddychwelyd yn y pen draw i Lywodraeth y Deyrnas Unedig pe bai'r Cyngor yn penderfynu peidio cymryd rhan yn y fenter – nodwyd y cafodd ceisiadau ar wahân eu gwneud eisoes i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am gyllid ar gyfer y prosiect hwn. Byddai'r cyfle yn rhoi gallu i ddarparu'r prosiect ar gyfer y dyfodol i'r flwyddyn ariannol nesaf yn amodol ar gytundeb Cydfenter. Gellid wedyn gydamseru hyn gyda chynnig prosiect y Fargen Ddinesig ar gyfer cangen Abertyleri.

  Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y deallai y cafodd materion ariannol eu codi gan Aelodau a dywedodd y byddai cytundeb Cydfenter yn cael ei ddatblygu yn y 3 mis nesaf gyda phartïon eraill pe bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo fel y medrid sicrhau incwm digonol. Fodd bynnag, pe na fyddid yn dod i gytundeb byddai'r arian yn cael ei ad-dalu ar unwaith heb unrhyw effaith ar drethdalwyr cyngor.

- Gofynnodd Aelod i'r Arweinydd agor dialog gydag arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Dinas Casnewydd parthed cytundeb i weithio mewn partneriaeth. Gofynnodd hefyd os yw'r Arweinydd yn rhannu ei bryder am yr effaith niweidiol bosibl y gallai hyn ei gael ar ganol tref Abertyleri.

  Dywedodd yr Arweinydd pe cytunid ar yr adroddiad ac y byddai o fudd i'r prosiect a'r Cyngor byddai yn cydlynu ac yn agor dialog gydag Arweinwyr Casnewydd a Chaerffili fel y gofynnwyd. Cyfeiriodd at y pwyntiau a'r consyrn a godwyd a dywedodd ei fod hefyd wedi codi pwyntiau tebyg ac wedi gofyn am sicrwydd am y cynnig. Er bod angen penderfyniad ar y cynnig o gyllid, byddai'r Cyngor yn cymryd y

penderfyniad mawr pan fyddai Aelodau yn ystyried y manylion a gynhwysir yn y cytundeb Cydfenter.

Aeth yr Arweinydd yn ei flaen drwy ddweud fod ganddo bryderon am bob canol tref ac mai ychydig iawn o reolaeth oedd gan y Cyngor – os oedd ganddo reolaeth o gwbl – am gau busnesau a dymunai weld Blaenau Gwent yn ffynnu. Dywedodd fod materion o bryder ym mhob rhan o'r rhanbarth a dywedodd fod cydweithwyr yng Nghasnewydd a Chaerdydd hefyd yn bryderus am yr effaith y byddai'r pandemig yn ei gael ar siopau canol dinas. Mae angen dull newydd o weithredu ar gyfer rhai o'r canol trefi ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn – cafodd Strategaeth Canol Tref ei mabwysiadu eisoes. Er mai ei flaenoriaeth bob amser fyddai ei waith Cynghorydd Ward Abertyleri, yn ei swydd fel Arweinydd y Cyngor ei brif flaenoriaeth oedd lles cyffredinol Blaenau Gwent yn ei chyfanrwydd.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai mesurau rheoli cyllideb yn ffurfio rhan o'r cytundeb Cyd-fenter.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd y byddai'r cytundeb Cyd-fenter yn cynnwys manylion am yr holl bryderon a'r pwyntiau a wnaed a dywedodd fod gwarchod y cyngor yn flaenoriaeth bennaf drwy'r broses. Cyfeiriodd at gyhoeddiad diweddar gan y Gweinidog a dywedodd fod ffocws newydd ar gysylltedd a bod gwaith wedi dechrau ar hyn ac yn cynnwys buddsoddiad mewn rheilffyrdd eraill yn y cymoedd i wella gwasanaethau. Yn nhermau canol trefi, mae gwaith eisoes wedi dechrau edrych ar opsiynau newydd a gwahanol.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur y dylai'r adroddiadau gael eu cyflwyno gan Aelodau Gweithredol yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaeth faith, cynigiodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd gymeradwyo Opsiwn 1. Cafodd y cynnig ei eilio.

Dychwelodd y Cynghorydd W. Hodgins i'r cyfarfod hanner ffordd drwy'r drafodaeth ar y cynigion amgen.

Ar ran y Grŵp Llafur a'r Grŵp Annibynnol Lleiafrifol, cynigiodd Arweinydd y Grŵp Llafur yr **argymhelliad amgen** dilynol:

**Cefnogi cynnwys Opsiwn Un gan ychwanegu'r amodau dilynol:**

- **Bod Dolen Casnewydd yn ymrwymiad cadarn.**
- **Na fyddai Blaenau Gwent yn cario'r baich ar gyfer y trefniant ar ei ben ei hun a bod trafodaethau'n agor ar unwaith gyda Chasnewydd a Chaerffili.**
- **Sicrwydd manwl pellach ac amcanestyniadau yn dangos y byddai incwm o'r trenau ychwanegol yn ddigon am ad-daliadau benthyciad Blaenau Gwent yn cael ei gynhyrchu i Aelodau eu harchwilio a bod Aelodau'n cael mwy o amser, gydag adroddiadau, i graffu'r prosiect.**
- **Dadansoddiad manwl i roi sicrwydd am yr ad-daliadau MRP a amlygir yn yr adroddiad.**

**Eiliwyd y cynnig amgen hwn.**

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

**O blaid y cynnig amgen –** Cynghorwyr P. Baldwin, D. Bevan, M. Cross, P. Edwards, L. Elias, K. Hayden, H. McCarthy, J. Millard, M. Moore, J. C. Morgan, K. Pritchard, T. Sharrem, T. Smith, S. Thomas, H. Trollope, B. Willis, L. Winnett.

**Yn erbyn y cynnig amgen** – Cynghorwyr J. Collins, M. Cook, N. Daniels, D. Davies, G. A. Davies, G. L. Davies, M. Day, D. Hancock, M. Holland, S. Healy, J. Hill, J. Holt, J. Mason, C. Meredith, J. P. Morgan, L. Parsons, G. Paulsen, K. Rowson, B. Summers, G. Thomas, J. Wilkins.

**Ymatal –** Cynghorydd W. Hodgins

**<u>Ni</u> chariwyd y bleidlais ar y cynnig amgen.**

Gan na chafodd unrhyw fwriad ei leisio gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol i wrthwynebu Opsiwn 1, roedd y llwybr gweithredu a gynigiwyd i beidio symud ymlaen i bleidlais unigol wedi'i chofnodi ar yr opsiwn a ffafrir yn dderbyniol.

Felly PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, bod yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) yn cael ei dderbyn a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:

| | | |
|---|---|---|
| | (i) derbyn y cynnig o'r cyllid a nodir yn yr adroddiad a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Swyddog Adnoddau i negodi ar ran y Cyngor a gweithredu fel llofnodydd i'r cytundeb cyllid.<br>(ii) bod y Cyngor yn ymgysylltu gyda phartïon perthnasol i ddatblygu trefniant Cydfenter i'w gytuno mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.<br>(iii) bod y Cyngor yn cytuno i'r dangosyddion darbodus a ddiwygiwyd yng nghyswllt terfynau dyled allanol yr Awdurdod h.y. Terfyn Awdurdodedig a Ffin Weithredol (Atodiad 1). | |
| **No. 43** | **RHESTR FER – SWYDDOGION JNC**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio ac i nodi'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 44** | **PWYLLGOR APWYNTIADAU – SWYDDOGION JNC**<br><br>Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13, | |

Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2021.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a:

- cynnig swydd Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Addysg a Newid Busnes i Claire Gardner ar gyflog yn unol â JNC 1 (£51,407 - £56,544).

- cynnig swydd Rheolwr Gwasanaeth Pobl Ifanc a Phartneriaethau i Joanne Sims ar gyflog yn unol â JNC 1 (£51,407 - £56,544).